# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 19EG MEDI 2018 AM 10.30A.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P.Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd)

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro) a R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol)

Hefyd yn Bresennol:

J. Morgan (Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Chofrestryddion), L. Morgan (Rheolwr Trwyddedu), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Busnes Dros Dro), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro), J. Carpenter (Rheolwr Treth Cyngor ac Ardreth Annomestig Genedlaethol), K.Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), T. Evans (Swyddog Polisi) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

**1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb gan y Cynghorwyr N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth) a Mrs E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) a M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd S. Morgan ddiddordeb yn ystod y cyfarfod mewn perthynas ag eitem agenda 5 - I fabwysiadu 'Cynllun Rhyddhad Ardrethi Stryd Fawr' 2018/19 Llywodraeth Cymru (LlC) - Cyllid Grant. Mae'r manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem briodol.

**MATERION OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**3. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET**

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r Blaenraglen Waith arfaethedig o adroddiadau Cabinet y dyfodol a cheisiodd ardystio'r Rhaglen ar gyfer y cyfnod Medi 2018 i Orffennaf 2019.

Mae Blaenraglen Waith y Cabinet yn cael ei diweddaru yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau sy’n cael eu gwneud iddi ers iddi gael ei chytuno yn gyntaf ar yr 22ain o Ionawr 2014. Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod rhai newidiadau ac eitemau ychwanegol wedi'u hychwanegu at y Rhaglen ers cyhoeddi'r adroddiad ac amlygwyd y rhain gan y Swyddog cyflwyno.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog a'r newidiadau a gytunwyd yn y cyfarfod, cymeradwyo'r Blaenraglen Waith a atodir i'r adroddiad a'i gyhoeddi i Wefan y Cyngor.

**4. CANLYNIAD YMGYNGHORIAD MEWN PERTHYNAS Â CHYNIGION I GYNYDDU PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU HACNI**

Diweddarodd yr adroddiad y Cabinet gyda'r gwrthwynebiadau a gafwyd o'r ymgynghoriad statudol ar y prisiau arfaethedig a gofynnodd am gymeradwyaeth y prisiau gydag addasiad neu hebddo a'r dyddiad y daw i rym. Adolygwyd y prisiau ar gyfer Cerbydau Hacni mewn ymateb i geisiadau a dderbyniwyd gan y fasnach drwyddedig.

Roedd y Pwyllgor Trwyddedu Tacsis a Thrwyddedu Cyffredinol wedi ystyried yr adroddiadau yn flaenorol ac yn y Cabinet ar 25ain Gorffennaf 2018 rhoddwyd cymeradwyaeth i gychwyn cyhoeddiad statudol o'r tariff newydd arfaethedig fel y'i nodwyd yn Atodiad A. Roedd hwn yn gyfnod ymgynghori o 14 diwrnod. Hysbyswyd y Cabinet hefyd, yn dilyn yr ymgynghoriad os na dderbyniwyd gwrthwynebiadau, y byddai'r tariff pris yn dod i rym ar unwaith.

Dywedwyd wrth y Cabinet y rhoddwyd hysbyseb yn manylu ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ym mhapur newydd y Western Mail ar 4ydd Awst 2018, ac fe ddangoswyd rhybudd yn Swyddfeydd y Cyngor yn Nhŷ Penallta, Ystrad Mynach. Anfonwyd llythyr at yr holl yrwyr trwyddedig yn y fwrdeistref a chyhoeddwyd datganiad i'r wasg a chyhoeddwyd gwybodaeth ar wefan gorfforaethol y Cyngor. Yn unol â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, fe ebostiodd Swyddogion grwpiau yn cynrychioli'r rhai â nodweddion gwarchodedig hefyd sef Grŵp Mynediad Bwrdeistref Sirol Caerffili, 'Disability Can Do' a Fforwm 50+, gan roi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad.

Eglurwyd, cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar yr 17eg o Awst 2018, derbyniwyd un gwrthwynebiad ffurfiol i'r cynnydd arfaethedig. Roedd manylion amdanynt wedi'u nodi yn Atodiad B yr adroddiad. Y gwrthwynebiad sylfaenol oedd adegau gweithredu'r tariffau, sef 7am-7pm ar gyfer tariff 1 a 7pm-7am ar gyfer tariff 2. Awgrymodd yr ymatebwr y dylai'r amseroedd tariff fod yn berthnasol rhwng 6am a 10pm (tariff 1) a 10pm i 6am (tariff 2) ond ni ehangodd y rhesymau dros yr awgrym hwn. Derbyniwyd sylw ychwanegol ar Tariff 2 trwy'r Cyfryngau Cymdeithasol, cyfeiriwydd yr unigolyn hwn at y mecanwaith ffurfiol i gofrestru unrhyw wrthwynebiad, ond ni dderbyniwyd unrhyw gyswllt pellach. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) (ynghlwm wrth yr adroddiad) wedi'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried yr ymgynghoriad eang a gynhaliwyd, y lefelau isel o sylwadau a dderbyniwyd a chymeradwyo tariff gydag addasiad neu hebddo a'r dyddiad y daw i rym.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog, cymeradwyo gweithrediad y Tariff fel y manylir yn Atodiad A, gyda dyddiad effeithiol y 25ain Medi 2018.

## 5. I FABWYSIADU'R 'CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI STRYD FAWR' 2018/19 LIC - CYLLID GRANT

Datganodd y Cynghorydd S. Morgan diddordeb personol a rhagfarnol mewn perthynas â'r adroddiad hwn gan ei fod yn berchennog eiddo. Gadawodd yr ystafell pan ystyriwyd yr adroddiad ac ni gymerodd ran yn y ddadl na'r bleidlais.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu'r 'Cynllun Rhyddhad Ardrethi Stryd Fawr' a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC). Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi cyhoeddi cyfradd newydd annomestig dros dro yn genedlaethol, fe'i gelwir hefyd yn ardreth fusnes, 'Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-2019 yn unig. Mae'r rhyddhad a rhoddwyd gan yr Awdurdod o dan y cynllun newydd hwn i fod i gael ei ad-dalu gan LlC drwy'r grant a therfyn arian parod penodol ond, cyn bydd unrhyw ryddhad yn cael eu dyfarnu, rhaid i'r Awdurdod ystyried a mabwysiadu'r cynllun newydd. Eglurwyd bod y Cynllun yn anelu at ddarparu cymorth i fusnesau manwerthu strydoedd mawr cymwys trwy gynnig gostyngiad o hyd at £250 ar y bil cyfradd busnes fesul eiddo ar gyfer eiddo cymwys Haen 1 a hyd at £750 yr eiddo ar gyfer eiddo cymwys Haen 2 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-2019, yn ddarostyngedig i derfynau Cymorth Gwladwriaethol. Mae uchafswm y rhyddhad ardrethi ar y stryd fawr sydd ar gael i bob trethdalwr cymwys bellach yn hanner yr hyn a gynigiwyd dan Gynllun 2017-18. Ar 30ain Gorffennaf 2018, cyhoeddodd LlC y dyraniad cyllid ar gyfer y Cynllun, a dyraniad yr Awdurdod hwn yw £132mil. Mae rhyddhad i'w ddarparu o dan Adran 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn unol â'r meini prawf a'r amodau a bennir yn y canllawiau a osodir yn Atodiad 1

Er mwyn cymhwyso ar gyfer y gyfradd rhyddhau, mae'r canllawiau yn nodi y bydd yn benderfyniad i'r awdurdodau lleol sut maent yn dymuno gweinyddu'r Cynllun. Er mwyn mwyhau'r gyfradd dderbyn gan drethdalwyr a lleihau costau gweinyddol yr Awdurdod, cynigir y caiff rhyddhad ardrethi ei gymhwyso'n uniongyrchol i filiau trethdalwyr cymwys ar gyfer y rheini sy'n talu trethi hynny a gwblhaodd ffurflen gais ac a derbyniodd rhyddhad ardrethi o dan Gynllun 2017-18, ac maent yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi o dan Gynllun 2018-19. Yn yr achosion hyn, ni fydd angen cwblhau ffurflen gais ar gyfer 2018-19. Fodd bynnag, os fydd y llwybr hwn yn cael ei ddilyn, mae'r canllawiau yn nodi swm sylweddol o destun y mae'n ei argymell dylai gael eu hymgorffori mewn llythyr dyfarnu wedi ei gyfeirio at bob trethdalwr gymwys yn nodi goblygiadau'r Cymorth Gwladwriaethol. Ar ben hynny, os bydd trethdalwr cymwys yn credu nad yw ef neu hi yn gymwys i dderbyn y rhyddhad, rhaid i ddatganiad o fewn y llythyr gael ei llofnodi a'i dychwelyd i'r Awdurdod. Bydd angen cwblhau ffurflen gais mewn achosion lle na dderbyniodd trethdalwr rhyddhad ardrethi'r Stryd Fawr y llynedd ond mae'n bodloni meini prawf cymhwyster Cynllun 2018-19. Yn 2017/18, cyhoeddodd Swyddogion ffurflenni cais cychwynnol a sawl mis yn ddiweddarach cyhoeddwyd llythyrau atgoffa dilynol gan annog y trethdalwyr hynny, eto i wneud cais, i wneud hynny heb oedi pellach. Y bwriad yw y bydd trefniadau tebyg yn cael eu gwneud ar gyfer y cynllun hwn lle nad oes ffurflen gais wedi'i chwblhau'n gywir mewn perthynas â Chynllun 2017/18 neu 2018/19.

Nodwyd y byddai'n rhaid i bob trethdalwr sy'n ofynnol i lenwi ffurflen gais gyflwyno'r cais i'r Awdurdod erbyn 15fed Chwefror 2019 i ganiatâu i swyddogion allu cyflwyno'r hawliad grant terfynol erbyn 28ain Chwefror 2019, yn ôl y gofyn gan LlC. Bydd y gymuned fusnes yn cael ei hysbysu o'r Cynllun trwy wefan y Cyngor a'r cyhoeddiad 'Newsline'. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod yn ysgrifennu at drethdalwyr y mae'n ystyried y gallant fod yn gymwys am ryddhad i'w gael o dan y Cynllun, i'w hysbysu ynghylch argaeledd rhyddhad ac i ddarparu gwybodaeth am y broses ymgeisio. Felly, bydd Tîm Cyfraddau Busnes yr Awdurdod yn ysgrifennu at yr holl fusnesau sydd newydd gymhwyso yn amgáu'r ffurflen gais priodol i geisio mwyhau'r nifer sy'n derbyn y Cynllun. Hysbysir yr Aelodau bod 74% o drethdalwyr cymwys wedi gwneud cais am ryddhad ardrethi'r Stryd Fawr yn 2017/18 ac wedi ei dderbyn.

Hysbyswyd y Cabinet na fydd goblygiadau ariannol i fabwysiadu'r cynllun. Mae'r Awdurdod wedi derbyn grant gweinyddu bach o £3,371.19 gan LlC a bydd hyn yn cwmpasu'n ddigonol y gwaith sydd i'w wneud wrth gyflwyno'r cynllun.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog:-

(i) y mabwysiedir y 'Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr’ 2018-2019 ar unwaith yn unol â’r canllawiau a osodwyd allan yn Atodiad 1 a'r ddarpariaeth o Adran 47(1)(a) ac Adran 47(3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Swyddog S151 yn defnyddio eu pwerau a dirprwywyd i rannu'r rhyddhad;

(ii) y mabwysiedir cynigion a nodir ym mharagraffau 4.5 i 4.7 i ganiatáu i ymgeiswyr llwyddiannus am y Cynllun 2017/18 sy'n gymwys i dderbyn rhyddhad ardrethi o dan Gynllun 2018/19, i gael y rhyddhad ardrethi a ddyfarnwyd heb yr angen i wneud cais pellach eleni;

(iii) ei wneud yn ofynnol i drethdalwyr nad ydynt wedi cwblhau ffurflen gais ar gyfer y Cynllun 2017/18 gwblhau a dychwelyd ffurflen gais yn gywir ar gyfer Cynllun 2018/19; yn cytuno os oes angen ffurflen gais, bod rhaid i bob un o'r trethdalwyr cymwys gwblhau ffurflen o'r fath ar gyfer pob eiddo cymwys a'i dychwelyd i'r Tîm Ardrethi Busnes heb fod yn hwyrach na 15fed Chwefror 2019

## 6. STRATEGAETH A CHYNLLUN GWEITHREDU CERBYDAU TRYDAN.

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth am Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cerbydau Trydan Drafft y Cyngor.

Hysbyswyd y Cabinet fod Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cerbydau Trydan cyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (ynghlwm wrth yr adroddiad) yn dangos ymagwedd arloesol a strategol ar gyfer cerbydau trydan ar draws y fwrdeistref sirol. Mae'n nodi'r dull arfaethedig o gefnogi gosod seilwaith cerbydau trydan er mwyn gwneud y gorau o'r manteision a'r cyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y mae cerbydau trydan yn eu darparu, ac i gerbydau trydan fod yn rhan sylfaenol o fflyd y Cyngor ei hun.

Amlinellodd y swyddogion y farchnad gynyddol mewn cerbydau trydan, sy'n deillio o gyhoeddiad Llywodraeth y DU i wahardd gwerthiant cerbydau disel a phetrol newydd yn y DU o 2040 a'r nifer gynyddol o weithgynhyrchwyr ceir sy'n buddsoddi yn y dechnoleg newydd. Mae datblygiadau mewn technoleg batri yn arbennig wedi caniatáu i gerbydau trydan gael ystod o fwy na 180 milltir ar fatri llawn, a chynyddodd nifer y cofrestriadau cerbydau trydan a hybrid newydd yng Nghymru 35% yn 2017, gydag 82 o gofrestriadau cerbyd trydan ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw bwyntiau trydanu cerbydau trydan ar gael yn gyhoeddus ym mwrdeistref sirol Caerffili a dim ond 439 o bwyntiau trydanu ledled Cymru.

Felly mae angen strategaeth i gefnogi gweithredu cerbydau trydan a phwyntiau trydanu cerbydau trydan er mwyn symud ymlaen â'r gwaith pwysig hwn. Bydd hyn yn rhoi'r seilwaith ar waith i gefnogi staff a phreswylwyr i fuddsoddi mewn cerbydau trydan ac annog ymwelwyr sy'n gyrru cerbydau trydan i ymweld â'r fwrdeistref sirol. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys hyrwyddo a gosod seilwaith i gefnogi beiciau trydan (E-feiciau), mopedau trydan a cherbydau trydan eraill sy'n cyfrannu at nodau cyffredinol y strategaeth. Cyfeiriwyd yr Aelodau hefyd at nodau ac amcanion allweddol strategaeth Cerbydau Trydan CBSC fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.

Heddiw mae mwyafrif y cerbydau ar strydoedd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhedeg ar naill ai danwydd petrol neu diesel. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n newid oherwydd y datblygiadau mewn technoleg newydd a'r materion sy'n ymwneud â'r dechnoleg bresennol. Am y rhesymau hyn, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei gynlluniau yn ddiweddar i wahardd gwerthiant

cerbydau disel a phetrol newydd yn y DU o 2040. Oherwydd hyn, mae gweithgynhyrchwyr cerbydau yn gweithio i hyrwyddo technoleg mewn cerbydau trydan ynghyd â cherbydau tanwydd eraill ac i godi diddordeb defnyddwyr. Mae proffil cerbydau trydan bellach yn tyfu ac fe'i gwelir fel cyfrannwr i leihau allyriadau carbon a gwella ansawdd aer.

Hysbyswyd y Cabinet fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 6ed Medi 2018. Roedd y Pwyllgor Craffu yn gefnogol i'r cynigion a amlinellir yn y Strategaeth ddrafft ac yn teimlo ei bod yn bwysig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili arwain trwy esiampl, ac felly'n argymell yn unfrydol i'r Cabinet, am y rhesymau a gynhwyswyd ynddi, gymeradwyo'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cerbydau Trydan drafft fel y'i hatodir i'r adroddiad, er mwyn annog pobl i fanteisio ar y defnydd o gerbydau trydan ymhellach.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am y strategaeth ardderchog a chadarnhawyd bod hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael cyfle i ddefnyddio'r Cerbyd Corfforaethol Trydan newydd a chafwyd argraff ffafriol arno oherwydd ei berfformiad a pha mor dawel y mae'r cerbyd. Bydd yr arbedion defnydd ac effeithlonrwydd nawr yn cael eu cymharu â'r cerbyd Corfforaethol blaenorol a chyflwynir y manylion yn ddiweddarach. O ran yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu, eglurwyd y bydd y rhain yn cael eu datblygu wrth gael mwy o fanylion. Sefydlwyd Grŵp Strategaeth Cerbyd Trydanol, gyda chydweithwyr ar draws yr Awdurdod sy'n cynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Cynllunio a Rheoli Fflyd wrth symud ymlaen. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill wrth rannu profiad, gwybodaeth ac ystyried datblygiadau yn y dyfodol.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cerbydau Trydan Drafft am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog.

## 7. EITHRIAD TAW AR GYFLENWAD GWASANAETHAU CHWARAEON.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i wneud cais am eithriad TAW ar gyflenwad gwasanaethau chwaraeon.

Hysbyswyd y Cabinet bod y cyflenwad o wasanaethau chwaraeon gan gyrff nad ydynt yn gwneud elw bob amser wedi'i heithrio rhag TAW. Fodd bynnag, mae Awdurdodau Lleol yn y DU wedi'u cyfyngu o'r eithriad hwn ac felly mae'r gwasanaethau chwaraeon a ddarperir ganddynt wedi bod yn ddarostyngedig i'r gyfradd TAW safonol. Mae'r trefniant hwn wedi bod yn destun her gyfreithiol lwyddiannus sy'n golygu bod gan Awdurdodau Lleol hawl bellach i drin cyflenwad gwasanaethau chwaraeon fel eithriad o TAW ar yr amod eu bod yn gwneud hynny'n gyson.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cyflwyno hawliad ôl-ddyddiedig a bydd yn derbyn swm unwaith ac am byth o tua £1.3 miliwn oddi wrth CThEM, ac argymhellodd yr adroddiad y dylid neilltuo hyn mewn Cronfa Cyfalaf a Chlustnodwyd ar gyfer Gwasanaethau Hamdden. Ar ben hynny, amcangyfrifir mai £264 mil yw'r incwm ychwanegol blynyddol llawn parhaus trwy gymhwyso'r eithriad. Fodd bynnag, mae'r lefelau incwm cyfredol yn is na'r lefel a gyllidebwyd, felly y gofyn cyntaf ar yr incwm blynyddol ychwanegol fydd i sicrhau bod y targedau incwm cyfredol yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd swm blynyddol o tua £70 mil ar gael i gefnogi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig o 2019/20 ymlaen.

Esboniwyd bod nifer fach o Glybiau'n adennill TAW a dalwyd ar daliadau ac ni fyddant yn gallu gwneud hynny pan fydd yr eithriad yn cael ei gymhwyso. Ar ben hynny, mae gan rai Clybiau eithriad TAW ar hyn o bryd trwy archebion bloc a bydd angen i'r taliadau hyn gynyddu i sicrhau cysondeb i bob cwsmer. Argymhellwyd y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Cymunedau Dros Dro, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi gyda'r Clybiau hyn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn

cael ei gymeradwyo.  Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD yn amodol, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog, ar welliant ym mharagraff 10.1.3 i ddarllen *nodwch dderbyn unwaith ac am byth oddeutu £1.3miliwn o'r hawliadau ôl-ddyddiedig a chytunwyd y dylid neilltuo hyn mewn Cronfa Cyfalaf a Chlustnodwyd: -*

(i) y dylid nodi canlyniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn achos London Borough of Ealing(Achos C 633/15);

(ii) cytuno ar weithredu'r eithriad TAW ar gyflenwad gwasanaethau chwaraeon o 1af Hydref 2018;

(iii) cytuno ar y swm unwaith ac am byth o'r hawliadau ôl-ddyddiedig sydd i'w neilltuo mewn Cronfa Cyfalaf a Chlustnodwyd;

(iv) y dylid nodi unrhyw incwm blynyddol ychwanegol gweddilliol sydd i'w gynnwys yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (CATC) o 2019/20;

(v) cytuno y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau Dros Dro, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, i ddelio ag unrhyw faterion sy'n codi o Glybiau fel y'u nodir ym mharagraff 4.2.5.

Terfynwyd y cyfarfod am 11.05am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 3ydd Hydref, 2018.

________________________

CADEIRYDD